# Adolygu gweithdrefnau rheoli ymddygiad

## canllaw i gynrychiolwyr NASUWT

NASUWT Undeb yr Athrawon
CYMRU The Teachers' Union

## Sut i ddefnyddio'r canllaw yma

Dylai cynrychiolwyr NASUWT ddefnyddio'r canllaw yma i wirio a yw gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer rheoli ymddygiad yn ymdrin â'r materion allweddol. Mae'r canllaw'n rhoi sylw arbennig i'r materion canlynol sy'n berthnasol i athrawon: llwyth gwaith, amodau gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol, iechyd, diogelwch a lles, a chyfle cyfartal.

Dylid darllen y canllaw ochr yn ochr â chanllawiau NASUWT *Datganiad o'r egwyddorion ar gyfer rheoli ymddygiad a Datblygu polisi rheoli ymddygiad.*

Dylai cynrychiolwyr ddarllen y canllaw yma os hoffent ragor o wybodaeth am yr elfennau y dylid eu cynnwys yng ngweithdrefnau'r ysgol ar gyfer rheoli ymddygiad.

## Y rolau a'r cyfrifoldebau

Dylai'r gweithdrefnau esbonio sut y bydd aelodau o'r staff yn cael eu hysbysu am eu rolau a'u chyfrifoldebau, a dylid cynnwys y cyfrifoldeb am weithredu polisi ymddygiad yr ysgol yn nisgrifiad swydd pob aelod o'r staff.

## Hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol i'r staff

Dylai'r gweithdrefnau nodi'n glir y bydd yr ysgol yn:

1. rhoi gwybodaeth berthnasol am faterion rheoli ymddygiad i'r staff i gyd;
2. sicrhau bod pob aelod o'r staff yn derbyn hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol yn rheolaidd ar faterion yn ymwneud â rheoli ymddygiad sy'n briodol i'w rolau a'u cyfrifoldebau, fel bod modd iddynt ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ym maes rheoli ymddygiad;
3. gwneud adolygiadau blynyddol o anghenion athrawon ac arweinwyr yr ysgol am ddatblygiad proffesiynol parhaus;
4. sicrhau bod gan bob aelod o'r staff yr hawl i dderbyn hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chymorth mewn perthynas â materion rheoli ymddygiad yn ystod y diwrnod ysgol arferol.

## Cyfeirio disgyblion, gan gynnwys gweithio gydag asiantaethau allanol

Dylai'r gweithdrefnau esbonio sut y bydd aelodau perthnasol o'r staff yn cael eu hysbysu am ganlyniadau unrhyw gyfeiriadau, a sut y bydd unrhyw broblemau a allai godi o'r gwaith gydag asiantaethau allanol yn cael eu hadnabod a'u trin.

- Dylid rhoi gwybod am ganlyniadau unrhyw gyfeiriadau i athrawon y dosbarth a/neu diwtoriaid y dosbarth.
- Mae'n bosibl y bydd angen i staff yr ysgol roi cymorth pan fydd asiantaethau eraill yn methu gwneud hynny. Er y bydd angen i'r ysgol sicrhau bod anghenion disgyblion unigol yn cael eu hateb, mae'n hanfodol fod camau'n cael eu cymryd i herio'r darparwyr gwasanaeth hynny sy'n methu â darparu'r cymorth. Lle bo'r angen, bydd NASUWT yn cefnogi ei aelodau i herio ac i newid arferion o'r fath.

**Adnoddau**

Dylai'r gweithdrefnau nodi sut y bydd adnoddau'n cael eu defnyddio i sicrhau bod y polisi ymddygiad yn cael ei weithredu'n effeithiol.

- Dylai'r gweithdrefnau nodi'n glir y bydd yr adnoddau angenrheidiol (gan gynnwys amser ac arian) yn cael eu darparu i sicrhau bod y polisi rheoli ymddygiad yn cael ei weithredu'n effeithiol, a dylent esbonio'r camau a fydd yn cael eu cymryd i sicrhau bod hyn yn digwydd.
- Dylai'r aelodau o staff sy'n gyfrifol am asesu anghenion neilltuol y disgyblion ac am wneud penderfyniadau amdanynt, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol neu anawsterau ymddygiadol, dderbyn gwybodaeth am yr adnoddau, gan gynnwys yr arian, sydd wedi'u neilltuo i ateb yr anghenion hynny. Dylent hefyd allu gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd y caiff yr arian hwnnw ei ddyrannu.

**Materion yn ymwneud â'r staff**

Dylai'r gweithdrefnau:

1. sicrhau iechyd, diogelwch a lles pob aelod o'r staff;
2. sicrhau bod y lefelau staffio'n briodol, gan gynnwys nifer yr arbenigwyr ym maes ymddygiad;
3. sicrhau bod digon o amser ar gael i'r athrawon i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau proffesiynol ar gyfer yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol;
4. sicrhau nad yw'r gweithdrefnau a'r prosesau sy'n ymwneud â rheoli ymddygiad yn cael effaith niweidiol ar lwyth gwaith yr athrawon;
5. sicrhau bod problemau sy'n ymwneud â llwyth gwaith a phwysau sy'n codi o weithio rhwng asiantaethau'n cael eu hadnabod a'u trin;
6. egluro sut y bydd yr ysgol yn ymdrin â honiadau a wneir yn erbyn aelodau o'i staff.

- Mae rhai athrawon yn dweud eu bod yn wynebu cam-drin a thrais corfforol, a bod yr ysgol yn gwneud dim i ymdrin â'r mater. Mewn rhai achosion, dywedir wrth athrawon (yn arbennig y rheiny sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig, darpariaeth amgen neu unedau cyfeirio disgyblion) sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau i'w hysgol, bod hynny'n 'rhan o'r swydd'. Nid yw hynny'n wir. Mae gan yr ysgol ddyletswydd gofal i ddiogelu pob aelod o'i staff.
- Efallai y bydd staff yr ysgol yn wynebu pwysau gan asiantaethau allanol i gymryd rolau cydlynu lle mae cymorth a rennir rhwng asiantaethau'n cael ei ddarparu hefyd. Gall rhai aelodau o'r staff fod yn arbennig o agored i niwed, ond mae hyn yn effeithio'n enfawr ar lwyth gwaith pob aelod o staff yn yr ysgol. Dylai'r ysgol adnabod unrhyw bwysau o'r fath a chymryd camau i'w gwrthod.
- Efallai y bydd rhai ysgolion yn gofyn i athrawon wisgo camerâu corff er mwyn rheoli ymddygiad gwael disgyblion. Mae hyn yn rhoi'r argraff na ellir ymddiried mewn athrawon i roi gwybod am broblemau yn yr ystafell ddosbarth ac mae'n codi pryderon yn ymwneud â diogelu data a diogelu pobl a allai achosi i athrawon orfod wynebu honiadau ac achosion cyfreithiol posibl yn y dyfodol.
- Mae modd i ysgolion ddefnyddio systemau teledu cylch cyfyng ar safle'r ysgol i helpu i ddarparu amgylchedd diogel a sicr, ac i atal eiddo rhag cael ei golli neu ei ddifrodi. Mae'n hanfodol bod yr ysgol yn meddu ar bolisi teledu cylch cyfyng sydd wedi'i ddatblygu a'i gytuno gyda NASUWT ac undebau eraill y staff. Dylid cymryd camau i sicrhau nad yw'r polisi'n troseddu yn erbyn preifatrwydd neu hawliau sifil, a'i fod yn cydymffurfio â'r gofynion diogelu data.

## Ymchwilio i ddigwyddiadau o ymddygiad gwael

Dylai'r gweithdrefnau nodi'n glir y bydd pob aelod o'r staff a allai gymryd rhan yn y gwaith o wneud unrhyw ymchwiliadau'n derbyn hyfforddiant a chefnogaeth addas.

- Bydd hyn yn bwysig pan fydd rhywun yn gwneud honiad o ymddygiad amhriodol yn erbyn aelod o'r staff a phan fo'r broses gychwynnol o benderfynu a yw'r honiad yn gredadwy wedi'i chychwyn.

**Cyfle cyfartal**

Dylai'r gweithdrefnau:

1. ymdrin â materion cydraddoldeb sy'n ymwneud â'r disgyblion ac â'r staff;

- Mae gan yr ysgol ddyletswydd gofal am ei disgyblion a'i staff fel ei gilydd. Dylai'r gweithdrefnau nodi'n glir y bydd digwyddiadau sy'n effeithio ar grwpiau penodol o athrawon neu ddisgyblion yn cael eu cymryd o ddifrif. Er enghraifft, dylid esbonio'n glir y bydd yr ysgol bob amser yn trin yn ddifrifol iawn unrhyw ddigwyddiadau megis tynnu llun neu fideo o dan sgert ac ymddygiadau sy'n amharchu urddas merched ifanc a menywod. Dylai'r gweithdrefnau nodi'n glir y bydd yr ysgol yn gorfodi cosbau cryf ar y disgyblion hynny sy'n ymddwyn yn y ffordd yma tuag at aelodau o'r staff neu ddisgyblion eraill.

2. ddisgrifio sut y bydd yr ysgol yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion ag anabledd:

- O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rhaid i bob ysgol wneud addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion sydd ag anabledd.
- Mae Rheoliad 4(1)(c) Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Anabledd) 2010 (SI 2010 Rhif 2128) yn nodi bod *'tuedd i gam-drin pobl eraill yn gorfforol…'* yn gyflwr sydd wedi'i eithrio o ddiffygion a ystyrir yn anabledd. Fodd bynnag, penderfynodd yr Uwch Dribiwnlys bod hyn yn anghydnaws ag Adran 3 Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r achos yn dangos mor bwysig yw hi bod ysgolion yn rhagweld anghenion disgyblion ac yn gwneud addasiadau rhesymol i ateb yr anghenion hynny.
- Nid yw penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys yn newid safiad NASUWT ar gamau 'gwrthod addysgu', a dylai cynrychiolwyr NASUWT ddilyn y cyfarwyddyd gan NASUWT.

3. nodi trefniadau'r ysgol ar gyfer cofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau o ymddygiad gwael, gan gynnwys y mathau o ddigwyddiadau, fesul nodwedd warchodedig, ac unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â disgyblion ac aelodau o'r staff;
4. nodi'r trefniadau ar gyfer monitro'r defnydd a wneir o wobrau a chosbau fesul nodwedd warchodedig;
5. nodi sut y bydd data i fonitro cydraddoldeb ac asesiadau o'r effeithiau o ran cydraddoldeb a lleihau tlodi'n cael eu defnyddio i adolygu ac i wneud penderfyniadau am:

a. y gweithdrefnau rheoli ymddygiad;
b. anghenion hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chymorth ar gyfer materion yn ymwneud â rheoli ymddygiad;
c. yr adnoddau a ddarperir ar gyfer materion rheoli ymddygiad.

## Cyfranogaeth rhanddeiliaid

Dylai'r gweithdrefnau esbonio sut y bydd yr ysgol yn cynnwys yr undebau llafur a'i staff yn y gwaith o adolygu a gwerthuso'r polisi ymddygiad a'r gweithdrefnau rheoli ymddygiad.

## Rhannu arferion da

Dylai'r gweithdrefnau nodi sut y mae'r ysgol yn canfod arferion da ym maes rheoli ymddygiad ac yn eu rhannu gyda'r athrawon.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o gyngor ac arweiniad am faterion rheoli ymddygiad a meysydd perthynol eraill, ewch i: www.nasuwt.org.uk/advice/in-the-classroom.html.

siaradwch
â ni

029 2054 6080
rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
www.nasuwt.org.uk

NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

www.nasuwt.org.uk

18/06008 Cymru